# YR ANGOR

**PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION**

*'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'*

CYF. 43. RHIF 9 | CHWEFROR 2022 | 50c


# Llongyfarchiadau i Eryl a Rhiannon



*Keith Orrell yn cyflwyno y bathodyn*

Ar ddechrau mis Tachwedd fe anrhydeddwyd dwy o aelodau Côr Cymry Lerpwl. 'Roedd Eryl Dooling a Rhiannon Liddell yn aelodau o'r Côr am hanner can mlynedd eleni ac y maent yn dal mor frwdfrydig i gael canu ag erioed. Yn ystod cyngerdd y Côr yn Eglwys All Hallows, Allerton cyflwynodd Keith Orrell, arweinydd y Côr, bathodyn arbennig i'r ddwy ohonynt i ddathlu y garreg filltir bwysig.

Pe bai heb gael yr anaf i'w goesau byddai Ifor Griffith yn derbyn yr un anrhydedd am fod yn aelod o'r Côr am 60 mlynedd.

Llongyfarchiadau i'r tri ohonynt ac edrychwn ymlaen i gael wrando at gyngherddau y Côr yn ystod y flwyddyn newydd.



Golygyddol

# *Sylwadau am dri mis yn 2021*


## *– gan D. Ben Rees*

Mae blwyddyn arall ar fin ein gadael yn rhan o hanes y byd, ac ni allwn ond llefaru un gair Cofid-19 fel y gair sydd yn crynhoi y flwyddyn ar ei hyd. Ond bydd yn rhaid imi gyfyngu fy sylwadau i'r tri mis cyntaf o 2021.

Dydd Gwener oedd diwrnod cyntaf 2021 a gobeithiwn yn fawr y bore hwnnw y byddai y flwyddyn newydd yn wahanol i'r flwyddyn a'n gadawodd gan ein bod oddi ar Mawrth 2020 wedi bod o dan fygythiad y feirws a ddihangodd o Seina i weddill y byd. Gwnaeth ddifrod ym mhob gwlad a chenedl a daliwn mewn ofn parhaus. Ar 4 Ionawr 2021 y bûm yn didoli'r deunydd ar gyfer rhifyn cyntaf *Yr Angor* a'r noson honno gwelais Lerpwl yn colli 1 gôl i ddim i Southampton. Chwarae gwael gan dîm Lerpwl y diwrnod hwnnw. Y mab ieuengaf yn ffonio rai dyddiau yn ddiweddarach i ddweud ei fod ef yn gweithio adref bellach. Nid oes rhaid iddo godi gyda'r wawr a dal trên saith i Lundain. Byd yn newid iddo ef a miloedd ar filoedd eraill oherwydd Cofid-19.

Diwrnod trist oedd Ionawr 7fed yn yr oerni mawr wrth sylwi fod Donald Trump wedi perswadio ei gefnogwyr ffôl i faeddu y *Congress* yn Washington. Pedwar yn marw fel canlyniad i'r ymosodiad.

Derbyn cyflwyniad Alun Davies, Aelod y Cynulliad dros Blaenau Gwent i'r Gyfrol o Gofiant i Aneurin Bevan, Tad y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol. Byddai yn ddrwg arnom yn yr argyfwng yr ydym ynddo ym Mhrydain onibai am weledigaeth Aneurin Bevan ac iddo lwyddo i greu y




Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol. Ac ar Ionawr 8 bu Meinwen a minnau yn Valley Medical Centre, oedd yn orlawn, yn cael y brechiad arall.

Yr wythnos hon cefais fwynhad i ddarllen cyfrol Angharad Price, *Ymbapuroli*, ysgrifau difyr, ac ar ôl hynny Cofiant i Eric Hobsbawm, y Comiwnydd ond un o'n haneswyr godidocaf yn yr iaith Saesneg. Teimlo braint i gael trefnu Sul yr Holocost ar 24 Ionawr ar *zoom*, ac ar y diwedd pledleisiodd pum o eglwysi Lerpwl a Manceinion i roddi galwad i'r Parchedig Robert Parry. Anfonais air i'w longyfarch ef gan edrych ymlaen i gyflwyno'r awenau iddo yn niwedd Mawrth.

Ar 3 Chwefror bum yn meddwl am Amlosgfa Llanelwy lle cynhaliwyd gwasanaeth angladdol Mair Jones y delynores a fu yn rhan bwysig o fywyd Lerpwl, hi a'i phriod Llanowain. Yr un diwrnod yn Amlosgfa Llaneurgain cynhaliwyd gwasanaeth angladdol Dr. Aled Lloyd Davies, Wyddgrug a fu yn gefnogol i'n cymdeithasau ni yn Lerpwl. Gŵr o ddoniau arbennig ydoedd, cynnyrch tref Corwen, ond wedi cyfrannu yn helaeth yn nhref Daniel Owen.

Balch fy mod yn medru mynd allan bob dydd ac yn dal i fugeilio trwy'r ffôn a weithiau wrth y drws, ond rhaid parchu y cyfyngiadau a gwisgo mwgwd.

Yn niwedd Chwefror gweithiais yn galed ar gyfrol arfaethedig ar Nye Bevan, a darllen hefyd Cofiant T. Gwynn Jones gan Alan Llwyd, meistr ar y cyfrwng. Gormod o ddyfyniadau ganddo yn y cofiant graenus ar ein prif fardd.

Cael Dosbarth Beiblaidd ardderchog o dan Robert Parry ar 8 Mawrth, er mai dim ond saith ohonom oedd yno. Cadeiriais gyfarfod blaenoriaid Bethel y noson honno, bum yn cyflawni hyn oddiar mis Medi 1968 yn ddiffael. Gweld y noson honno Meghan a Tywysog Harry yn y cyfweliad gyda Oprah Winfrey, Califfornia, agoriad llygaid. Deuthum i'r casgliad bod y ddau wedi rhoddi bonclust go dda i'r Sefydliad Seisnig a'r wasg boblogaidd. Yr Arglwydd Leslie Griffiths am adolygu fy nghyfrol ar James Griffiths, y gwleidydd yn y *Methodist Recorder*. Ef a'r Arglwydd John Morris yn gefnogol iawn ac yn falch o'r Cofiant Saesneg i un o'n mawrion. Yn ddiolchgar am oedfa 14 Mawrth pan ganolbwyntiodd Robert Parry ar Sul y Mamau a chawsom ddarlun delfrydol o'r Fam Gristnogol, a dyna fu fy mhrofiad i trwy drugaredd. Daeth cynulleidfa gref ynghyd ar *zoom*, o leiaf 68 o gyfrifiaduron ac ati yn clywed y cyfan.

Braint cael gwasanaeth y Cymun ar *zoom* a Meinwen yn paratoi Bwrdd yr Arglwydd, ac er i'r peiriant gambyhafio, llwyddwyd yn dda a bu llu o'r saint yn garedig – fy mab Dafydd yn ffonio, felly hefyd Nan Hughes Parry, Dr. Pat Williams ar y *zoom*, a Dr. John Williams, Roderick Owen a'r Gweinidog newydd neges e-bost. Penderfynu symyd o gwmni *Talk Talk* i *Sky* gan fod trafferthion gyda *zoom* yn peri cur pen.

Y BBC ar fy ôl i gyfweliadau ar fy ymddeoliad ar 29 Mawrth. Cyfweliad gyda BBC Caerdydd am hanner dydd, Dewi Llwyd yn holi am chwarter i ddau. Aeth y cyfan fel cloc. Sgwrs fuddiol yn ôl Brian Thomas a ffoniodd ar ei union. Un felly ydyw. Hoff ryfeddol ohono.

Yna 31 o Fawrth diwrnod braf, diwrnod fy ymddeoliad o'm gweinidogaeth rhan amser yn Methel a Bethania, Waterloo am dair mlynedd ar ddeg,



***Dewi Llwyd***
***fu'n fy holi am fy ymddeoliad***

ond 53 mlynedd yn Lerpwl. Diflanodd y blynyddoedd a chefais amser da, bendithiol. Yn awr trosglwyddo y cyfrioldeb i ŵr arall sydd wedi cyflawni chwarter canrif yn y Weinidogaeth Bresbyteraidd. Pa sawl blwyddyn y caiff yr alltudion ei wasanaeth ef? A fydd ef yn ymddeol o'r ofalaeth mewn pymtheg mlynedd yn ôl y disgwyliad yn swyddfa Eglwys Newydd y Presbyteriaid? Bydd hi yn stori wahanol erbyn y flwydydn 2036?

Dydd Gwener Ebrill 2 ar y radio eto ar *Dau cyn Dau* gyda Dewi Llwyd, ac yn darllen o Luc am Groesholio'r Iesu, Gweddïo am nerth i dystio i Iesu'r Groes yn fy ymdeoliad. Ef yw ein Gwaredwr. Yr Anghymunol Un. Llefarodd ar y Groes y gair Gorffennwyd. Roedd gorfoledd a buddugoliaeth yn y gair olaf a glywodd Ioan o wefusau'r Iesu dioddefus.

Cael ffôn Sadwrn y Pasg gyda John Medwyn Jones o Aberystwyth lle mae'n byw bellach. Ef yn gyn-flaenor; yr un diwrnod Lerpwl yn ennill yn erbyn Arsenal 3-0. Paratoi y dyddiau hyn barseli o gyfrol Jim Griffiths, cyfrol fawr clawr caled, ac o ran maint un o'r harddaf a gyhoeddodd Gwasg Cyhoeddiadau Modern. Yr archebion fel canlyniad i adolygiad J. Graham Jones, Aberystwyth ar Jim i *Nation/Cymru*. Cario pedwar parsel ar 8 Ebrill i'r llythyrdy – Dr. Christopher Howard, y Bontfaen; John Osmond, Penarth; Theo Davies-Lewis, Llundain (ond yn wreiddiol o Lanelli) ac Eifion Thomas, Pembre. Pwysig gwerthu'r cyfrolau, a'r diwrnod canlynol, cyfrol i Robyn Lewis, Aberhonddu a gorffennais yr ysgrif a gomisiynwyd gan *Barn* ar *Ffarwel i'r Weinidogaeth*. Nid yn hollol. Mae gormod o nwyd pregethu ynof i wrthod cyhoeddi y neges amserol.

Diwrnod hyfryd oedd Ebrill 10 a merch o Iwerddon yn ennill prif wobr Aintree am y tro cyntaf. Clywed oddi wrth un o ragorolion y Glannau, Mair Rees Jones, Penbedw. Un o'r goreuon yw Mair a diolch amdani hi a phawb tebyg iddi yn nhalgyrch yr *Angor*.



***Rachael Blackmore -***
***merch o Iwerddon enillydd y Grand National 2021***

*YSGRIF GOFFA:*

# Mrs Gaenor Gregory (1942-2021)

## Bromborough, Cilgwri

**Un o Gymry Lerpwl oedd Gaenor a ganwyd hi ar 28 o Orffennaf 1942 i rieni cariadus a gofalus yn Allerton, Lerpwl. Ei thad oedd Arthur O. Roberts ac yr oedd hi yn debyg iawn iddo o ran pryd a gwedd. Adnabyddid ef fel Alaw Penllyn yng Ngorsedd Beirdd yr Eisteddfod Genedlaethol a chyflawnodd waith canmoladwy gyda'r plant yn y Gorlan a'r Ysgol Sul ac wrth ei fodd yn paratoi ar gyfer Drama'r Nadolig. Deuai ei mam o Goedpoeth, yn un o dair chwaer oedd yn byw yn Lerpwl, a bu dwy ohonynt yn weithgar yng nghapel Heathfield Road a'r llall yng nghapel Waterloo.**

**Pan ddeuthum i Lerpwl yn 1968 yr oedd Gaenor yn byw gyda'i mam yn Heydale Road gan iddi golli ei thad yn sydyn yn 1960. Mynegid hiraeth ar ei ôl pan ddeuthum i'n weinidog wyth mlynedd yn ddiweddarach, rhywbeth na ddigwydd yn hanes y rhan fwyaf ohonom. Deuai Gaenor a'i mam i'r cyfarfodydd ar y Sul ac yn aml ar noson waith. Erbyn hyn yr oedd ei brawd Gareth oherwydd yr iaith wedi symud ei aelodaeth i gapel Saesneg y Methodistiaid yn Elm Hall Drive lle y bu yn hynod o weithgar. Gyda'n cyfarfodydd eciwmenaidd deuai i'n plith yn ei dro ond daliodd Gaenor ei gafael ar y capel a fu'n fagwrfa iddi.**



**Cofiaf yn dda ei phriodas yn 1979 a'r fraint o weinyddu a dod i adnabod ei phriod Paul. Symudodd i Dibbinsdale Road, Bromborough ond am flynyddoedd lawer gwelid hi yn oedfa'r hwyr ym Methel, ar ôl dyddiau ei mam, yn eistedd gyda Mrs Glyn Peters. Gyda thristwch mawr y bu'n raid iddi wynebu ar afiechyd am flynyddoedd lawer, ond cadwodd ei chysylltiad a byddem yn cysylltu gyda hi, yn ymweld o dro i dro a chael croeso twymgalon bob amser.**

**Fel canlyniad i ddamwain yn y cartref bu'n rhaid ei chludo i'r ysbyty lle y daeth yr alwad i'r byd tragwyddol ar 29 Tachwedd 2021. Cymerodd yr arwyl le yn Amlosgfa Landican ar fore Iau, 16 Rhagfyr, a chydymdeimlwn yn ddwys gyda'r teulu yn y brofedigaeth. Diolchwn am ei chefnogaeth ddi-ildio dros y degawdau i Gymry Bethel.**

**D. Ben Rees**

Cysylltwch â'r
YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'
garthdriveben@gmail.com

Newyddion o

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Annwyl Gyfeillion. Dyma ni ar drothwy blwyddyn newydd yn ein hanes. Blwyddyn ansicir gan na wyddom yn iawn beth fydd yn digwydd oherwydd y Covid. Fodd bynag, dymunwn flwyddyn newydd hapus a bendithiol i bob un ohonoch.

Fel eglwys, cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Beryl Davies a'r teulu oll ar farwolaeth ei mab Colin yn yr hosbis yn Macclesfield. Gyda cymorth cyfeillion a'r teulu mae Beryl wedi mynd trwy fisoedd dyrus iawn yn ddewr ac fe fydd yr un cymorth o fendith iddi yn ei galar a'i hiraeth.

Mae Sarah Davies yn wan ond yn cael pob gofal ac wedi cael gwasanaeth cymun wrth erchwyn ei gwely gan ein gweinidog Y Parchedig Robert Parry.

Roeddem yn siomedig iawn fod rhaid cau y capel ar y Sul yr oeddem wedi trefnu gwasanaeth carolau ond roeddem hefyd yn cydweld mae dyma oedd y peth doethaf i'w wneud. Er cau y capel rydym yn cael pregeth ar *Zoom* a diolch yn fawr i'r rhai sydd yn trefnu'r *Zoom* ac i'n gweinidog am ei bregethau. Pan mae un drws yn cau mae un arall yn agor. Ac fel yna y mae bywyd. Mae'n rhaid i ni fod yn ofalus iawn a cadw'n ddiogel ond mae pethau yn sicir o wella yn eu hamser. Mwynhewn pob diwrnod yn hapus gan edrych ymlaen am ddyddiau gwell i ddod.

Ar ddechrau pob blwyddyn byddwn yn canu emynau arbennig ac fy hoff un yw emyn rhif 91. Cymerwch gysur wrth ei ddarllen. Dyma'r pennill cyntaf.

*Gwawriodd blwyddyn newydd eto*
*O'th drugaredd, Arglwydd cu*
*llanw dy gariad heb ddiffygio*
*hyd yn hyn a'n dygodd ni*
*Cawsom gerdded yn ddiogel*
*drwy beryglon blwyddyn faith*
*gwnaethost ti bob storm yn dawel*
*oedd yn bygwth ar y daith.*

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Cydymdeimlwn yn ddwys gyda Elin a Jim Boyd, yn y brofedigaeth lem a ddaeth iddynt fel teulu ym marwolaeth David, brawd yng nghyfraith, trwy ddamwain yn ei gartref yn Aughton. Mae'r ddau deulu yn byw yn agos i'w gilydd. Dygwyd y brawd yng nghyfraith i ysbyty yn Lerpwl lle y derbyniodd ofal arbennig ond roedd y niwed ar yr ymennydd yn rhy ddrwg i feddygaeth ein dyddiau ni. Cydymdeimlwn â'i briod, chwaer Jim, a'r teulu yn sydynrwydd y brofedigaeth.

Cafodd rhai ohonom sgwrs yn Ystafell y Sgwrsio ar ôl oedfa *zoom* ar drothwy'r Nadolig gyda John P. Lyons yn sôn am ei brofiadau ar Ynys Môn. Bu yn yr oedfaon yn Bethel Hen, Llanrhuddlad a Hyfrydle, Caergybi lle mae Robyn Williams yn weithgar. Derbyniodd ef driniaeth lawfeddygol ar 29 o Ragfyr ac anfonir ein cofion anwylaf o Lerpwl ato ef a'i deulu am wellhad buan. Gwelodd John P. Lyons deulu arall a fu yn rhan o Gymry Lerpwl, Joan a William Owen sydd wedi gorffen ymchwil rhagorol ar Gymry Lerpwl o 1840 i 1920. Edrychwn ymlaen am weld y cyfan.

**Cyfarfod Gollwng**
**Y Parchedig Ddr D Ben Rees**
**o'i ddyletswyddau gweinidogaethol a gweinyddol**
**Oedfa Bethel, Heathfield Road, Lerpwl**
**10.30am fore Sul Tachwedd 7fed 2021**

***Yn iach i ti Athro***

*Mae heddiw'n Sul arbennig,*
*Sul gollwng gwâs nodedig,*
*Y Ben fu bont rhwng gwlad a thre'*
*ei le fydd anrheuliedig.*

*O lwyfan ac o bulpud*
*ei ddysg ni welodd fachlud,*
*Ei Grist, ei laith a Llafur dyn*
*offeryn Duw yn olud.*

*Priododd ysgolheictod,*
*ei deulu gwâr a'i briod —*
*a gwyddent hwy, y cyfryw rai*
*mai dyma'i bererindod.*

*Ymchwiliwr craff i hanes,*
*a'r sut, a pham a'r broses*
*fel bu'r hen ddinas a'r Hen Wlad*
*yn dreftad, mewn un fynwes.*

*A phan ddaw llacio'r gengl –*
*nid segur hwn mewn congl;*
*bydd galw gwlad am brofiad gŵr*
*Y tŵr, i'r Tad a'r triongl.*

*Tri pheth amdano gofiwn,–*
*Yr un oedd Sul a Sasiwn*
*a'r Cymro gwiw, a Duw yn Ben*
*roes Awen mewn defosiwn.*

*Norman Closs Parry,*
*Carmel, Treffynnon*



CYMRAEG

**Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**


*Cyhoeddwyd gan*
*Bwyllgor yr Angor,*
*Heathfield Road, Lerpwl 15.*

*Cysodwyd ac argraffwyd gan*
*Aeron Jones, Ty'n y Cefn,*
*Llanuwchllyn LL23 7UH*
*07729 960484*
*aerontynycefn@gmail.com*

Darn o Hunangofiant

# Chwaraeon – Dyddiau Mebyd Alec a minnau

### *gan Edward Brian Thomas*
### *Pennod 2*



*Edward Brian Thomas*

Roedd Alec a minnau wedi dod yn ffrindiau agos yn fuan iawn ar ôl dechrau'r ysgol. Roedd hi'n ddiwrnod Sêl yn y pentref ac roedd y ffermwyr wedi paratoi y cae y noson cynt, a ninnau yn eu canol, yn creu 'stalls' i'r defaid a'r gwartheg. Y ddau ohonom, y diwrnod wedyn, yn teimlo'n ddiflas wedi ein cyfyngu i'r dosbarth, ac yn penderfynu ar ôl cinio ein bod am fynd i'r Sêl. I ffwrdd a ni ein dau, yn selog am gae Tŷ'n Ddôl. Y ddau ohonom yn cael hwyl fawr yn cerdded rownd y cae fel dau ffarmwr. Yn sydyn dyma ddau o fechgyn yr ysgol yn dod atom ac yn dweud fod yn rhaid inni fynd yn ôl i'r ysgol. Gwrthod y gwahoddiad i fynd yn ôl a wnaethom. Ymhen rhyw hanner awr wedyn dyma ddau fachgen arall yn dod i'n chwilio, a cheisio eto ein perwadio i fynd yn ôl i'r ysgol gyda hwynt, ac yn addo reid mewn berfa inni, os y byddwn yn barod i fynd. Gwrthod y cais a wnaethom yr eilwaith, ac wrth ein bodd yn y Sêl.

Y bore wedyn dyma ein galw o flaen yr ysgol ar ôl y gwasanaeth a Mr. Griffiths yn egluro paham yr oeddem wedi codi cywilydd ar yr ysgol i gyd a'n gwadd i ddal ein llaw allan i gael y gansen. Pensal hir oedd y gansan a chafodd y ddau ohonom ein hitio gan y bensal ar ein dwylaw. Nid yw'n cofio i'r bensal frifo mi o gwbl, ond rwyf cofio y braw o fod 'o flaen ein gwell' y bore hwnnw.

Yn y dyddiau cynnar hynny, Alec oedd fy ffrind pennaf a byddai ef yn dod i'm nôl i, neu mi fyddwn i yn mynd i chwilio amdano fo. Byddem yn chwarae pob math o gemau personol gyda'n gilydd. Cofiaf chwarae marblis efo fo, ac mi roedd ef yn dipyn gwell na mi am daflyd, a chanddo well êm hefyd. Fel arfer ef fyddai yn ennill. Cofiaf hefyd ei allu i wneud siâp 'hopscotch' ar y ffordd fawr, a'r gais rhai o'r merched, ac wedyn taflu carreg at y rhifau, ac hopian ar un goes nes cyrraedd y ffigwr wyth, heb roddi coes i lawr. Yr enillydd oedd y cyntaf i gyrraedd wyth. Roedd hon yn gêm y medrai bechgyn a genethod ei chwarae yn weddol gyfartal. Nid wy'n cofio llawer o gemau pan oedd hyn yn gallu digwydd.

Roeddem hefyd yn hoff iawn o chwarae penio pêl yn ôl ac ymlaen mewn agoriad coets fawr, oedd yn arwain i gefn tŷ tafarn 'Yr Eryrod' yn y pentref. Byddwn yn chwarae hyn am oriau os oedd pêl ar gael. Gêm arall oeddwn yn chwarae oedd 'Pitch and Toss' os oedd gennym ychydig o arian, ond pur anaml oedd hyn yn digwydd am mai Alec fyddai'n ennill bob tro.

Yn yr adeg yma rwy'n cofio mynd gyda tîm pêl-droed hogiau hŷn i lawr i Betws y Coed i chwarae gêm yn erbyn 'Dulwich College', ia wir, 'Dulwich College. Roedden nhw wedi symud i adeilad y 'Royal Oak' oherwydd y rhyfel a'r difrod yn Llundain. Cofio cyrraedd yr 'ysgol' ac wrth fynd i mewn i'r cyntedd, un o'r athrawon yn dwyn sylw yr hogiau at bentwr o esgidiau pêl-droed ac yn dweud wrthym am chwilio am bâr i'n ffitio. Gwyddai mae'n debyg nad oedd yr un o'r hogiau yn berchen ar esgidiau o'r fath. Aeth amryw o'r hogiau adref gyda phâr oeddynt yn gallu eu cadw rhywsut ar y ffordd allan. 'Linesman' oeddwn i y diwrnod hwnnw am fy mod yn rhy ifanc i allu chwarae yn y tîm, a'r peth rwy'n gofio fwyaf am y gêm oedd pa mor aml oedd y bêl yn mynd i'r afon, a'r amser oedd hi'n gymeryd i rhywun fynd ar ei hôl, cyn i'r gêm fynd yn ei blaen. Dywedodd un o ferched sy'n gweithio yn y gwesty wrthyf ychydig yn ôl, fod cyn-fechgyn yr ysgol yn cael aduniad yn y gwesty hyd ddiwedd y naw degau.

Weithiau byddai yr hogiau yn dechrau hel olwynion o bob math ac yn mynd rownd y pentref yn arwain yr olwyn gyda'u dwylaw. Ar y pryd hynny, byddai hen ewythr imi, Yncl Rhys, gôf y pentref yn gwneud olwyn haearn imi, a ffon haearn yn sownd ynddi, a byddwn yn cael llawer o hwyl yn ei rowlio rownd y strydoedd. Byddwn yn dod at ein gilydd ac yn chwarae 'convoys' hefo'r olwynion. Mor rhwydd oedd chwarae ar y strydoedd yr adeg hynny, efo cyn lleied o drafnidiaeth yn hawlio'r ffordd fawr. Byddwn hefyd yn chwarae 'convoys' efo pram babis. Ar ôl dipyn o drefnu, a gofyn a gawn fynd a'r babis am dro, byddem yn cwrdd ar ganol y llan, a chyda beic ar y blaen, a beic yn y cefn, fel 'dispatch rider', byddwn i fyny i ddeg neu



*Gêm boblogaidd i'r bechgyn a'r merched oedd 'Hopscotch'*



*Rowlio olwyn haearn*

ddeuddeg ohonom, yn rhedeg y pramiau rownd y strydoedd, yn beryg bywyd i rhywun oedd yn cerdded ar y stryd, ond roedd pob babi yn cysgu yn drwm drwy'r noson honno. Doedd yr un o'r mamau ymron yn gwrthod y cynnig i fynd a'u babis am dro drwy'r prynhawn, a hwythau'n cael seibiant o'r herwydd.


Pan oeddem yn ein harddegau byddwn yn chwarae llawer iawn o bêl-droed ar gae y pentref. Os oedd rhywun o'r hogiau wedi cael pêl fawr yn anrheg Nadolig, roedd ganddo ffrindiau lu, hyd nes fod y bêl wedi byrstio neu ei cholli. Byddwn yn cwrdd yn y cae chwarae, ac roedd gennym gêm oedd yn mynd ymlaen am oriau weithiau, a'r sgôr yn gallu rhifo i'r degau yn aml cyn mynd adref. Ychydig iawn o griced oeddem yn chwarae, ond byddai gennym gêm weithiau rhwng tîm Cwm Penmachno, a byddai troeon, o fod bron yn rhyfel gartrefol, yn digwydd os oedd rhywun yn cael cam-ddyfarniad. Cofio unwaith, mynd i chwarae yn erbyn tîm o Bentrefoelas, a choeliwch neu beidio, tua deg ohonom yn Nhacsi Jones Bwtsiar, ac yntau'n dreifio. Tra roeddem yn chwarae gêm roedd Jos wedi mynd i'r Foelas Arms i 'dorri chwant', a bu'r siwrna adref yn fyth gofiadwy, gyda Gwynfor yn canu, 'Gawn ni gwrdd tu draw i'r afon?' wrth fynd i lawr o'r A5 dros bont Afon Conwy am Benmachno, a disgyniant o dros gan troedfedd i'r afon islaw, a ffordd ddwy gornel gul dros y bont. Roedd ofn go iawn arnom, a Bob GG yn cwffio i droi a rhoi ei law ar geg Gwynfor. Braf oedd cyrraedd adref yn ddiogel y noson honno.

*(i'w barhau)*



*Chwarae marblis*

# CORNEL Y TRYSORYDD



**Chwefror 2022**

| | |
|---|---|
| Mrs Ann Jones, Llanwrin | £20.00 |
| Parch a Mrs Gwyndaf Richards, Llwydiarth | £25.00 |
| Mr Selwyn Jones, Penmynydd | £25.00 |
| Mr John Lyons, Rhydwyn, Ynys Môn | £100.00 |
| Mr a Mrs Clifford Owen, Llanfairfechan | £20.00 |
| Gwethiant Noddfa, Manceinion | £45.00 |
| **Cyfanswm** | **£235.00** |

**Gyda diolch a phob dymuniad am flwyddyn Newydd Dda**

**Roderick Owen (Trysorydd)**


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

National Association of Funeral Directors® Est 1905

*ER COF:*

# GWEN LOIS JONES
## (1928-2021)
## Booker Avenue

**Cynnyrch bywyd Cymraeg Lerpwl ar ei orau oedd y ddiweddar Gwen Lois Jones, ac un oedd yn ymfalchïo yn ei gwreiddiau ac yn ymhyfrydu yn ei magwraeth. Fe'i ganed ar y 5ed o Ionawr, 1928 yn ferch i Jenny Elizabeth Williams a'r brawd, John Williams oedd yn dal swydd go uchel yn ardal y dociau. Treuliodd flynyddoedd ei mebyd yn Bootle, gan symud i Anfield gyda'i rheini a'i chwaer, Nesta Ann i dalgylch oedd yn dafliad carreg o'r strydoedd Cymreig. Fel yn achos cannoedd eraill o'i chenhedlaeth, fe fu'n rhaid iddi ddianc rhag gwaetha'r Ail Ryfel Byd, yn gyntaf i gyffiniau Southport ac yna i ddiogelwch tref Caernarfon lle roedd ganddi berthnasau. Diau bod y cyfnod hwn, er anodded ydoedd, yn gyfle iddi gael ehangu tipyn ar ei gorwelion diwylliannol a hogi peth ar ei Chymraeg. Wedi i'r rhyfel ddod i ben, fe benderfynodd y Gwen ifanc (Gwen Williams fel yr oedd hi cyn priodi) ymrestru yng Ngholeg F. L. Calder ger Parc Calderstones er mwyn hyfforddi fel athrawes gwyddor tŷ. Ychydig y gwyddai hi bryd hynny y byddai'r caeau ag roedd hi'n eu pasio, gyda'r cynnydd yn y boblogaeth, yn mynd i ildio'u lle yn hwyr neu'n hwyrach i'r stad o dai lle y byddai hi'n byw weddill ei hoes.**

**Fe'i cafodd Gwen ei hun yn rhan o'r bwrlwm bywyd oedd i'w gael ymysg y Cymry yn ardal Toxteth (oedd yn cynnwys Clwb y Cymry yn Upper Parliament Street) a dyma gyfarfod â morwr golygus o'r enw Thomas Wynne Jones oedd yn enedigol o'r Fali, Ynys Môn. Fe'u priodwyd yng Nghadeirlan y Cymry, sef Capel Princes Road, a hynny ar Ragfyr 13eg, 1952, ac fe wnaethant eu cartref yn Melbreck Road, Allerton ac yna, yn nes ymlaen, yn Booker Avenue. Drysau agored oedd rhai Gwen Lois Jones bob amser, boed haf neu aeaf, a'r lleytgarwch a'r cymwynasgarwch yn ddiarhebol. Er nad oedd hi'n gallu gwneud ei hun, fe gefais innau flas ar y croeso hwnnw wrth ymweld â hi dros y ddwy flynedd olaf hyn.**

**Arwydd o gryfder ei chymeriad oedd y ffaith iddi fagu'r meibion, David a Robert bron yn gyfangwbl ar ei phen ei hun, gan fod ei phriod, Tom (y capten ieuengaf yn ei ddydd i fynd â llong allan i'r môr) ar ddyletswydd am fisoedd ar y tro. Daeth ei farw cyn-amserol ym 1985 fel ergyd drom iddi hi ac i'r teulu yn gyffredinol, ond brwydro ymlaen fu hanes y wraig fonheddig hon, gan wneud y gorau o'i hamgylchiadau ac anrhydeddu'r cof am ei gŵr yr un pryd trwy ddal ati yn ei ysbryd rhadlon yntau.**

**Dechreuodd Gwen ddysgu yn *Poplar Bank*, sef *borstal* i ferched yn ardal Huyton, gan fynd ymlaen i weithio mewn ysgolion uwchradd yn Ne Lerpwl, gan gynnwys *All Hallows* yn Speke a New Heys yn Allerton; a gallai ymffrostio yn y ffaith iddi, yn ei thro, ddysgu'r chwareuwr snwcer proffesiynol, John Parrot, M.B.E. Yn *New Heys* (fel gyda phob man arall, yn wir) fe wnaeth ffrindiau oes, ond hefyd yn y cyfeillion hynny y byddai'n eu cyfarfod ar ei theithiau drwy'r byd. Dynes felly oedd hi - dynes pobl oedd yn mwynhau hwyl a chwerthin, ac roedd y llun ar flaen y daflen angladdol yn dweud y cwbl.**

**Rydym yn cofio am ei meibion, David a Robert yn eu colled, gan ddiolch yn arbennig i Robert am y gofal rhagorol a roddodd i'w fam ar yr aelwyd yn Booker Avenue, heb anghofio ei hwyrion, Sam a Jake a'i llys-wyrion, Louis a Joe. Diolch i Dduw am y fraint o gael adnabod un o gymeriadau gwreiddiol bywyd a chael rhannu ffordd y pererinion yn ei chwmni. Gorffwysed mewn hedd.**

*ROBERT PARRY*

**Oedfa Ddiolchgarwch i'r Parchedig Ddr. D. Ben Rees**



**Dr. D. Ben Rees yn derbyn yr anerchiad addurnedig**

## GAIR BYR I'R DARLLENWYR, CYFRANWYR, DOSBARTHWYR A THEULU'R ANGOR

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** – Dyma eitem i godi'n calonnau, ac ym mhob rhifyn cawn golofn haeddiannol o haelionus. Daliwch i gynnal y papur bro unigryw hwn trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl / Liverpool L19 4UA. Bydd eich cyfraniad yn cael ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor.*** Am eleni eto yr un pris. Anhygoel. Dim ond £11.00 trwy'r post, trwy'r capeli a'r cymdeithasau £5. Cyfle i hysbysebu am £2, tudalen gyfan £60, hanner tudalen £30.
- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**
- **Rhifyn Mawrth 2022** – erbyn bore Mawrth, 1 Chwefror, 2022 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i'r cysodydd pnawn Mawrth.
- **Rhifyn Ebrill 2022 –** erbyn bore Mawrth, 1 Mawrth 2022, gan yr aiff y cyfan am hanner dydd i Benllyn i'w osod.
- **Rhifyn Mai 2022** erbyn bore Gwener, 1 Ebrill 2022 – lluniau, adroddiadau, llythyron, cyfarchion, hysbysebion i garthdriveben@gmail.com
- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno yn gyson, byddwn yn gobeithio gosod mwy o luniau yno yn y dyfodol agos).

- **Croeso – i'ch llythyron, adolygiadau etc, ac ambell erthygl i'r Golygydd cyn 1/2/2022.**


*Cyflwyno*

# RHIANNON IFANS

### gan Dr. Pat Williams

Ysgolhaig ac awdur sydd wedi cyhoeddi cyfrolau ar nifer o bynciau amrywiol yw Rhiannon Ifans ond llenyddiaeth yr Oesoedd Canol yw ei phrif faes astudiaeth. Bu'n gweithio yn aelod o dîm Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd yn Aberystwyth oedd yn golygu holl waith Beirdd y Tywysogion ac ar ôl hynny farddoniaeth Beirdd yr Uchelwyr. Ond nid esgeulusodd ryddiaith y cyfnod ac, ar y cyd â'i gŵr, Dafydd Ifans, cynhyrchodd yn 1980 ddiweddariad o chwedlau'r Mabinogion – cyfrol hardd addurnedig. Cydweithiodd ag awdur Saesneg, Helen Holmes, i gyflwyno'r chwedlau hyn yn Saesneg hefyd. Wrth fagu tri o feibion bach ysgogwyd hi i ysgrifennu llyfrau ar gyfer plant ac mae hi wedi ennill Gwobr Tir na n'Óg ddwywaith: yn 2000 am ei chyfrol *Chwedlau o'r Gwledydd Celtaidd* ac yn 2003 am ei chyfrol *Dewi Sant*. Bu hefyd ar y rhestr fer gyda'i chyfrol *Owain Glyndŵr: Tywysog Cymru*.

Ond nid dyna'r unig wobrau y mae hi wedi eu hennill. Yn 2019 cafodd *Red Hearts and Roses? Welsh Valentine Songs and Poems* ei ddyfarnu gan Gyngor Llyfrau Cymru yn llyfr Saesneg y mis. Mae'r gyfrol yn cyflwyno stori Sant Ffolant (*St Valentine)*, nawddsant cariadon, ynghyd â chasgliad o gerddi Cymraeg gyda chyfieithiadau Saesneg ohonynt. Mae'r cerddi yn ymestyn o'r ail ganrif ar bymtheg i'r cyfnod presennol a nifer ohonynt heb ymddangos mewn print o'r blaen. Er mai'r Santes Dwynwen sy'n cael ei chydnabod fel nawddsant cariadon Cymru erbyn hyn, roedd Sant Ffolant yn bwysig yng Nghymru rhwng y 17eg a'r 19eg ganrif. Mae'r gyfrol yn cynnwys rhagymadrodd ysgolheigaidd gyda nodiadau ar gefndir cymdeithasol y cerddi, ychydig o alawon, map yn dangos dosbarthiad daearyddol y cerddi a lluniau o hen gardiau Sant Ffolant addurnedig. Lansiwyd y llyfr hwn ar ôl i'r awdur draddodi Darlith Goffa Cliff Tucker yng Ngholeg y Drindod Dewi Sant ar y tetil 'Sant y Cariadon'.






***Rhiannon Ifans***

Yn 2019 hefyd enillodd Rhiannon Ifans y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy am ei nofel *Ingrid*, a ddyfarnwyd yn gyntaf allan o ddeunaw. Mae hon yn nofel unigryw oherwydd mae hi wedi ei gosod yn Yr Almaen a'r cymeriadau i gyd yn Almaenwyr. Dywedodd yr awdur ei bod yn 'awyddus i ddangos diwylliant Ewrop' ac mae hi wedi llwyddo i wneud hynny yn rhyfeddol. Dywedodd Mererid Hopwood, un o'r beirniaid, 'Prin iawn yw'r nofelau Cymraeg sy'n dod â diwylliant gwlad arall yn fyw, ond yma mae'r Gymraeg yn rhoi ei llais yn gwbl naturiol i fyd Yr Almaen.' Serch hynny mae thema'r nofel yn berthnasol i bob gwlad a diwylliant. Y prif gymeriad yw Ingrid a oedd yn ferch lawn bywyd yn ei hieuenctid ond wrth heneiddio yn raddol golli ei chof. Adroddir ei hanes o'i safbwynt hi ei hun, ei gŵr, ei mab a'i merch yng nghyfraith, a dangosir fel y mae'r afiechyd affwysol hwn yn cael effath arnynt i gyd. Yn sicr mae hon yn nofel werth ei darllen.

Un o'i diddordebau eraill yw carolau plygain, ac yn 2003 cyhoeddodd gasgliad ohonynt o dan y teitl *Yn Dyrfa Weddus: Carolau ar gyfer y Plygain*. Mae'r llyfr yn cynnwys 26 o garolau ynghyd â cherddoriaeth mewn hen nodiant a sol-ffa. Mae'r casgliad yn gyfuniad cytbwys o hen garolau, megis 'Gwêl yr Adeilad' a 'Carol y Swper' a threfniadau gan rai o gyfansoddwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg ynghyd â threfniadau newydd gan rai o gyfansoddwyr heddiw megis Bethan Bryn, Eleri Roberts a Rhiannon Ifans ei hun. Cynhwysir hefyd garolau newydd, megis 'Carol y Gair', gyda cherddoriaeth gan Dan Puw a'r geiriau gan Gwen Edwards. Barn Gwennan Gibbard amdani yn ei hadolygiad ar www.gwales.com, trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru, yw ei bod yn cadw'r 'tinc hynafol a'r didwylledd arbennig hwnnw sydd mor nodweddiadol o'r carolau hyn.'

Gellir gweld o'r cyfansoddiadau uchod mor eang yw diddordebau y ferch dalentog hon, sydd â'r gallu i ddenu darllenwyr o gylchoedd pellgyrhaeddol – o academyddion i blant, yn ogystal â'r rheiny sy'n darllen am bleser.



***Ingrid - Enillydd y Fedal Ryddiaith***

# MANCEINION DDOE A HEDDIW


## ALTRINCHAM - DUW CARIAD YW

**gan y Parchedig Eleri Edwards**

Yn 2007 ysgrifennodd William Jones Blaenor ar y pryd yn Altrincham hanes y capel (heddiw mae William yn flaenor yn Eglwys y Drindod Beaumaris, Sir Fôn) a dyma beth ysgrifennodd:

Mae hanes addoli yn yr iaith Gymraeg yn Altrincham yn mynd yn ôl i 1850. Mae record o'r cyfarfod cyntaf wedi cael eu olrhain i dŷ'r Bwrdd Dŵr yn George Street yn 1869. Cartref yr Arolygydd William Jones a'i wraig Jane. Yn ei ymweliadau a'r tai mawr yn ardal Altrincham sylweddolodd William bod yna lawer o forynion o Gymru â hiraeth arnynt am oedfa ar y Sul yn eu mamiaith ac fe'u gwahoddwyd i'r tŷ yn George Street ar brynhawn Sul. Cyn hir aeth y cartref yn rhy fach ac yn 1870 gydag aelodaeth o 28 symudwyd i ystafell yn Oxford Road. Erbyn 1890 yr oedd awydd ar yr aelodau am gael eu capel eu hunain, ac yn 1899 dechreuwyd chwilio am fan i adeiladu.

Yn 1902, cafwyd darn o dir yn Willow Tree Road a chyda swm o £150 ac apêl leol cyflwynwyd cynlluniau o'r adeilad newydd. Ymddiriedwyd y gwaith i Thomas Williams a'i feibion am y swm o £716-10s. Torrwyd y sylfaen yn Ebrill 1903 ac ar y 25 o fis Gorffennaf gosodwyd dwy garreg goffa ar ffrynt y capel. Ar ôl seremoni, cafwyd gwasanaeth ac i ddilyn te parti yn y *British School* lle cafwyd anerchiad gan Mr David Lloyd George AS. Mewn llyfr Saesneg *'Bygone Altrincham Traditions and History'* (Chas Nickson Manchester 1935, page 201) Darllenwn yr hanes am ddechrau'r achos: '*Before building their Chapel, the Welsh people held their services in a small meeting room and annually held a big rally in the British School, which was always an occasion of a festival of song and the flow of oratory. At one of these meetings, Mr David Lloyd George was present and delivered an inspiring speech on Welsh music'*.




*Plat i nodi'r canmlwyddiant*

Yn ystod gwasanaeth nos Sul Ionawr 19 cyn iddynt symud dechreuodd Diwygiad 1903 ym Manceinion – a'r gwasanaeth o dan ofal yr aelodau, derbyniwyd Miss Joseph Sankey gynt o Ffestiniog yn gyflawn aelod. Daeth naws crefydd a phwys anghyffredin i'r oedfa ... a'r dagrau ar eu gruddiau o gofio angau loes. Pan yn siarad â'r ferch ifanc hon canfyddom a teimlasom fod yn y cyfarfod deimladau dwysion a chryfion. A'i lygaid fel dwy ffynnon a'i lais yn crynu, dechreuodd H. O. Hughes ganu 'Diolch Iddo byth am lwch y llawr'. Yr oedd blas ar y canu. Dechreuodd rhai ddarllen yr Ysgrythur eraill yn adrodd adnodau ac eraill yn gweddïo. Pob diolch, pob ochenaid yn mynd i maes roedd yn gyfarfod hynod a bendithiol. Parhaodd yr effaith ac un nos Sabbath dilynol dechreuwyd cyfarfod gweddi am 5.30 a chyfarfod cynnes arall, y Pen mawr yn dod yn agos drwy ei Ysbryd. Diweddwyd yr oedfa am 9 o'r gloch. Cynyddodd felly yr Achos yn araf-deg ond ar seiliau sicr, yn yr ardal hon ar gyrion y ddinas lle bu cymaint o Gymry Cymraeg wedi dod i weithio i'r cyfoethogion oedd yn byw yn yr ardal. Agorwyd y capel newydd nos Sadwrn Rhagfyr 19, 1903.

Yn 1907 cafwyd gwahoddiad i'r Parch R. I. Jones, Ruabon i ofalu am Gapeli Altrincham a Higher Ardwick. Derbyniodd y galwad. Yn ei anerchiad yn adroddiad 1909 gofynnodd y Parch R. I. Jones i'r Eglwys yn Altrincham: 'Pa beth tybed sydd gan Ysbryd Duw ar gyfer enw pob un ohonom am y flwyddyn 1910? Diolchwn am arwyddion eglur o fywyd a welir. Ychwanegwyd 10 at ein nifer (95 o aelodau). Mae pob aelod yn gwerthfawrogi yn llawn ei docyn aelodaeth....' A mewn llythyr gan y gweinidog i'r Parch E. James Jones a welwyd mewn copi a anfonwyd gyda'r ystadegau o Gapel Altrincham, Willow Tree Road meddai: 'Da gennym eto y flwyddyn hon, dwyn tystiolaeth i lafur cariad yr eglwys fechan yn Altrincham. Credwn y gellir edrych yn ôl ar y flwyddyn 1910 gyda diolchgarwch i'r Arglwydd yn ein calonnau. Bu ei amddiffyn drosom yn fawr ac yn amlwg. Ni chollwyd neb drwy angau ac ni chollwyd neb chwaith drwy diarddeliad ac mor bell ag y clywn y mae'r chwiorydd a'r brodyr ieuainc yn ymddwyn yn deilwng o'u proffes uchel yn eu gwahanol gylchoedd – a thrwy hynny yn llefaru yn uchel am eu crefydd a'i cenedl ymysg estroniaid, a rhai ohonynt yn gwneud hynny mewn tai hollol digrefydd. Prawf o'r parch a deimlir tuag atynt ydyw y cydymdeimlad sylweddol amlygir gan y teuluoedd hynny at yr achos Cymraeg. Parhawn i gael cynulliadau da iawn ar ganol yr wythnos a pheth eithriadol iawn ydyw i neb ddod i'r Seiat heb adnod neu bennill neu sylw o'r bregeth, a cheir lle i gasglu eu bod yn derbyn budd ac adeiladaeth drwy ddyfod. Deil moddion y Sabboth eu tir hefyd, er y carem weled mwy ar foreu Sabboth, ond y mae amgylchiadau nifer luosog o'r chwiorydd yn ei rhwystro i ddod. Ar nos Sabboth yn aml bydd y Capel yn rhwydd lawn. Da gennym hefyd ddwyn tystiolaeth i'r cydweithrediad sydd yn bodoli yn ein mysg fel swyddogion. Ein gweddi yw am i'r Arglwydd edrych arnom yn fwy helaeth o lewyrch ei wyneb ac 'ehangu aroglau am ei wybodaeth drwom ni ym mhob lle'.'

Y mae'r ffaith bod y capel wedi gallu dathlu ei ganmlwyddiant yn 2003 yn achos balchder a llawenydd gyda'r Cymry yn Altrincham ac mae'n rhaid dweud bod y capel yn dal i fod ar agor hyd heddiw yn 2022 ond cawn barhad o'r hen hanes y tro nesaf.




*Ymweliad y myfyrwyr o Tseina a Taiwan oedd yr achlysur yn 2018*

# GWAREIDDIAD Y DE

D. BEN REES
**COFIANT ANEURIN BEVAN: CAWR O GYMRO A THAD Y GWASANAETH IECHYD**
Lerpwl,
Cyhoeddiadau Modern Cymreig 2022
tt. 312. Clawr meddal. Pris £20

Dyma gyfrol ragorol arall gan y mwyaf cynhyrchiol o'n haneswyr. Gair yn gyntaf amdano er mwyn i mi roi fy marn ar gof a chadw. Rwy'n ystyried cyfraniad D. Ben Rees i hanes Cymreig i fod ymysg pinaclau gwareiddiad Cymraeg diweddar. *Chapels in the Valley* (1975) oedd y gyfrol gyntaf o'i eiddo i mi ei darllen a hynny am fod fy nheulu'n tarddu o Gwm Cynon lle bu'r awdur yn weinidog cyn dod i Lerpwl. Wedyn, dros gyfnod o hanner canrif, cyhoeddodd gyfrol ar ôl cyfrol o lyfrau godidog am Gymry Lerpwl a'r cyffiniau. Dyna chi gyfraniad. Cyfraniad i hanes Cymru. Cyfraniad i hanes Lloegr. Cyfraniad i hanes y Gymraeg. Cyfraniad i hanes Cymry'r Glannau. Cyfraniad i hanes lleiafrifoedd gogledd-orllewin Lloegr. Ac mae'n gyfraniad arhosol hefyd. Brafo!




Yn ei lyfr newydd, *Cofiant Aneurin Bevan: Cawr o Gymro a Thad y Gwasanaeth Iechyd,* mae'n troi at bwnc arall sydd wedi ei ddiddori ar hyd ei oes, sef y diwylliant sosialaidd ac anghydffurfiol a ffynnai ymysg gwerin Gymraeg Cymru yn ystod yr ugeinfed ganrif. Dyma'r diwylliant a esgorodd ar wleidyddiaeth yn y Blaid Lafur a oedd ar yr un pryd yn Gymreigaidd ac yn rhyngwladol. Nid oes cynrychiolydd gwell o'r traddodiad hwnnw na gwrthrych y cofiant hwn, Aneurin Bevan.

Mae llawer yn credu fod Aneurin Bevan yn wrth-Gymraeg. Nid gwir hynny. Gwrthwynebu cenedlaetholdeb iaith wnaeth o. Gellid ei gollfarnu am hynny ac mae D. Ben Rees yn ein hatgoffa 'ein bod yn perthyn i ddosbarth, ond hefyd i genedl'. Ond roedd Nye Bevan yn gynnyrch ei gymdeithas a'i oes ei hun.

Nid yw pob cofiannydd wedi deall hynny am nad oes ganddynt y gafael angenrheidiol ar ddiwylliant Cymraeg y de er mwyn deall y cyd-destun. Ond mae D. Ben Rees yn deall diwylliant y de yn burion – wedi'r cwbl, bu ar un adeg yn weinidog yno. I mi felly, mae'r bennod gyntaf yn y llyfr, sydd am Dredegar, bro Aneurin Bevan, yn neilltuol o werthfawr. Cymro gwerinol a ymhyfrydai yn niwylliant Cymraeg sir Fynwy oedd ei dad, a dyna pam yr enwyd y mab yn Aneurin. Nid er mwyn dyrchafu Aneirin o'r chweched ganrif y gwnaeth hynny, ond er mwyn dathlu cyfraniad Aneurin Fardd, bardd lleol o bwys a golygydd y cylchgrawn, *Y Bedyddiwr.*

Mae'n wir i Saesneg fynd yn iaith bob dydd plant Tredegar, ac mae'n wir hefyd mai tad Aneurin yn unig a siaradai Gymraeg ar yr aelwyd yn ôl y cyfrifiad. Ond roedd teithi'r diwylliant Cymraeg yn rhan o gefndir y mab. Hwyrach y gallem gymharu hyn efo'r sefyllfa yn ninas Lerpwl yn yr un cyfnod lle byddai llawer gyda rhieni Cymraeg yn werthfawrogol o'r cyd-destun Cymraeg er na fyddent bob tro yn defnyddio'r iaith. Er hynny, mae'r Gymraeg yn rhan o'r gwaddol. Dyn felly oedd Aneurin Bevan.

Dengys D. Ben Rees mewn sawl pennod sut y bu i'w fagwraeth ddylanwadu arno. Hawdd y gallai cofiannydd Seisnig ymgolli yn minutiae penderfyniadau politicaidd ar lefel Cabinet a phlaid. Ond y gwir amdani yw fod agweddau cymdeithasol y rhan fwyaf ohonom yn cael eu ffurfio yn ystod ein llencyndod, a'n bod yn cymhwyso'r rheini wedyn at wahanol sefyllfaoedd drwy ein hoes. Tredegar oedd crud y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol er bod angen cydsyniad San Steffan er mwyn medru ei sefydlu.


***Simon Brooks***

Ac o ran ei agwedd at Gymru, mae'n bwysig nodi i Aneurin Bevan gefnogi yn y diwedd cael Ysgrifennydd Gwladol i Gymru, cam cyfansoddiadol pwysig a ddechreuai'r ymdaith a arweiniodd at ddatganoli yn 1997.

Mwynheais y gyfrol gynhwysfawr hon yn arw. Braf cael cofiant Cymraeg i Aneurin Bevan a hwnnw'n un teilwng. Braf hefyd yw fod yr awdur yn ysgrifennu mewn dull clir sy'n cyfleu gwybodaeth yn rhwydd. Mae naratif y gyfrol yn symud y testun yn ei flaen yn naturiol a'r gwrthrych yn derbyn triniaeth gytbwys a theg.

Mae hefyd yn gyfrol hanfodol am y bu tuedd yn y Gymraeg i anghofio am gyfraniad rhai o Gymry'r Blaid Lafur gan ganolbwyntio yn hytrach ar wleidyddion Plaid Cymru yn unig, megis yr athrylith o Wallasey, Saunders Lewis. Ond fel dangosodd D. Ben Rees yn ei gofiannau i Jim Griffiths a Cledwyn Hughes, mae Llafurwyr yn bwysig hefyd. Gyda Llafur a Phlaid Cymru mewn clymblaid i bob pwrpas yn Senedd Cymru heddiw, mae angen deall a gwerthfawrogi'r ddau draddodiad.

***Simon Brooks***

## *Oedfa Ddiolchgarwch i'r Parchedig Ddr. D. Ben Rees*


***Nan Hughes Parry yn annerch yn y cyfarfod o ddiolch***

# STORI NEWYDD ARALL



**ADOLYGIAD**
**Stuart W. Haywood**
**THE WELSH IN NORTH STAFFORDSHIRE**
**(Stoke on Trent, 2021)**
**clawr meddal, tudalennau 288 + XI. Dim Pris**


Cyhoeddwyd ar ei liwt ei hun gyfrol sylweddol ar y Cymry a fu yn byw, gweithio ac addoli yn y Gymraeg yn bennaf yn nhref Hanley, rhan o Stoke-on-Trent. Stuart W. Haywood yw Ysgrifennydd Cymdeithas Cymraeg Stoke-on-Trent, a cheir crynodeb o'r gweithgareddau hyd i'r coronafeirws ddod i gyfyngu ar y cyfarfodydd. Da gweld yn y bennod ar y gymdeithas gyfraniadau a chyfraniadau oddi wrth Tegwen Kettle a Menai Roberts. Trist yw sylweddoli fod yr achos Cymraeg oedd yn perthyn i'r Annibynwyr wedi dod i ben ond o leiaf cawn grynhodeb o waith y diweddar Ieuan Jones un a fagwyd yn y cylch a fu yn addurn fel Iolo Francis Roberts i'r dystiolaeth grefyddol Gymraeg yn ein cyfnod ni.

Fel ym mhob man arall yn Lloegr ymhlith yr alltudion bu'r capeli yn ganolfannau pwysig. Diddorol sylwi mae capel anenwadol yw Shelton oedd y cyntaf i'w agor a hynny yn 1854 ond buan y daeth yr enwadau i adeiladu eu capeli. Y Bedyddwyr Cymraeg yn Bexley Street, Hanley a'r Methodistiaid Calfinaidd a chapeli yn Parliament Row, Great York Street, Hanover Street a St. John Street, Hanley. Ceid capeli yr enwad yn Talk 'oth Hill a Cauldon Low yn Froghall. Sefydlodd yr Annibynwyr Cymraeg dystiolaeth yn Bath Street, Mill Street a Mayor Street, Hanley. Bu'r Methodistiaid (y Wesleaid) yn brysur gyda capeli yn Burslem, Chesterton, Hanley a Silverdale.

Ceir lluniau nifer o'r capeli o St. John Street, Hanley, High Street, Hanley ar dudalennau 150 i 155. Pwysig dros ben yw'r lluniau a'r holl fanylion a gasglwyd ynghyd ar ddiwedd y cyfnod.

Treuliodd Stuart W. Haywood arian lawer yn casglu ynghyd ac yna gosod yr hanes at ei gilydd mewn ugain o benodau, Treuliodd oriau lawer yn darllen y Cyfrifiad o 1851 i 1911 a nodi o ble y daeth y Cymry i Ogledd Swydd Stafford. Sir y Fflint oedd ar flaen y rhestr, yn arbennig dynion a weithiai yn y pyllau glo, yn cael ei denu i byllau glo yng ngogledd Stafford. Un o'r penodau a wnaeth argraff arnaf yw'r seithfed bennod.

Ceir bywgraffiadau byrion o bobl broffesiynol rhwng 1851 a 1939 fel Richard Conway, rheolwr Pwll Glo Stonetrough yn Mow Cop ac un o sylfaenwyr rhai o'r capeli Cymraeg. Rheolwr Bignall Hill Colliery oedd John Davies, genedigol o Wrecsam a symudodd dros y ffin yn 1900, a gorffen ei yrfa fel cyfarwyddwr glofa Glasshouse, Chesterton. Gŵr y gwyddwn gryn dipyn amdano oedd yr addysgwr John Thomas, un o athrawon cynharaf yr WEA yn Sir Gaerfyrddin ond ni wyddwn iddo weithio yng Ngogledd Stafford fel tiwtor Adran Efrydiau Allanol Prifysgol Rhydychen. Symudodd i Manceinion yn 1939 fel Cyfarwyddwr Addysg a Phrifathro Coleg y Co-op yn y ddinas. Bu farw yn Chorley yn 89 mlwydd oed yn 1980. Dyma ŵr hynod iawn ei gyfraniad ac y mae ei hanes o dudalennau 54 i 56 yn werthfawr.




Ar ôl darllen y gyfrol yn fanwl yr oeddwn yn ymwybodol iawn fod anferth o dasg yn disgwyl ein haneswyr i gofnodi hanes ein cymunedau Cymraeg yn Lloegr. Y mae'n drist iawn nad oes neb wedi mynd ati o ddifrif i gasglu ynghyd hanes y Cymry dyweder yn ninas Caer gan gofio yr holl Gymry dawnus a fu fyw yn y dref hynafol. Y mae mwy wedi ysgrifennu ar ochr y capeli yn Manceinion (fel y gwna Eleri Edwards y dyddiau hyn) ond eto y mae angen adrodd y stori yn llawn o ddechrau y ganrif fawr, sef y bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd heddiw yn 2022.

Y mae'r Canoldir yn gwahodd ei hanesydd, sef Cymry Wolverhampton (trist clywed bod y capel yn y fan honno wedi cau yn ddiweddar), yna Birmingham a Cofentri. Dyna ddigon o gylch i adrodd hanes yr ymfudo a sefydlu Cymdeithasau Cymraeg a Chapeli Cymraeg. Dim ond dau ohonynt gyda'r Hen Gorff sydd ar agor, sef Bethel, Holloway Head, Birmingham ac Eglwys Gymraeg, Holyhead Road, Cofentri. Felly dangosodd Stuart Haywood y ffordd ymlaen i eraill a dylid sefydlu Cronfa i gyhoeddi'r cyfrolau hyn. Bydd pob un a bryno'n gyfrol hon, yn rhyddhad i'w awdur, gan ei fod wedi talu llawer a gosod cryn lawer ar gof a chadw, ond mae llawer mwy i'w nodi yng Ngogledd Swydd Stafford. Felly y mae hi yn hanes Lerpwl a'r Cyffiniau, a daliwn felly i ymchwilio.

**D. Ben Rees**

Un o Gymry Lerpwl

**PARCHEDIG EILIAN OWEN (1865-1938)**

Bu Eilian Owen yn ŵr amlwg ym mywyd Cymry Lerpwl yn ei ddydd ac fel aml un arall nid yw'r cof amdano i'w ganfod yn aml. Ganed ef yn Lerpwl ond ni wyddom enwau ei rieni na'r lle y trigent, ond gwyddom iddo gael addysg dda. Bu yn Ysgol Ramadeg Porthmadog, Ysgol Croesoswallt, Coleg Y Bala, Prifysgol Caeredin a Phrifysgol Gottingen yn yr Almaen cyn cael ei ordeinio gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn Sasiwn Porthmadog. Ei eglwys gyntaf oedd Penmaenmawr, yna symudodd i gapel Pentrefelin a gorffen ei yrfa fel gweinidog yn y Brithdir yn Sir Drefladwyn.

Ymddeolodd a symudodd i Lerpwl, a bu mewn busnes teilwr gyda'i frawd yn Dalr Street. Ar ôl ei briodas yn 1922 symudodd y ddau i dref Rhuthun. Cyfrifid ef yn gryn ysgolhaig, ymchwilydd, a chredai ei fod yn gryn awdurdod ar ramadeg, byddai'n croesi cleddyfau yn aml gyda'r meistr, John Morris-Jones. Tueddai i fod yn feirniadol iawn a bu mewn dyfroedd dyfnion pan gyhuddodd y Parchedig W. O. Jones, Chatham Street o drosedd heb dystiolaeth ddigonol.

Bu'n rhaid iddo ymddangos gerbron llys a'i gosbi. Costiodd yr achos gryn dipyn o arian iddo. Ond ni ellir amau ei ddiwydrwydd eithriadol, a llafuriodd yn ei feysydd yn ddi-arbed. Golygodd argraffiad o'r Bardd Cwsg. Bu yn gysylltiedig â chapel Anfield Road, a bu farw ym mis Awst 1937 gan adael gweddw, Mrs O. Eilian Owen a dwy chwaer Mrs J. Evans a Mrs W. Dorkins, y ddwy yn byw yn Lerpwl.

Ffynhonnell: Marw y Parch Eilian Owen, *Y Brython*, Medi 1, 1937, t.7.


# CYFARFOD O DDIOLCH
# i'r Parchedig Ddoctor D. Ben Rees
## Tachwedd 7fed, 2021



*Y Gynulleidfa Werthfawrogol ym Methel*



*Robert Parry yn llawen gyflwyno rhoddion hael, cymaint felly fel y bo Dr Ben Rees wedi ei syfrdanu*




*Yr Anerchiad Addurniedig (un o'r rhoddion) sydd eisoes ar y wal ddim yn bell i'r un a roddwyd yn 1888 gan Eglwys Princes Road i Dr Owen Thomas*